




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | Library & Learning Resources

LLAWLYFR CYFEIRNODI HARVARD

PCYDDS: Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Fersiwn 1.5
Diweddarwyd Medi 2025

Croeso

Croeso i 4^{ydd} argraffiad diwygiedig Llawlyfrau Cyfeirnod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae cyfeirnod i'n fanwl gywir yn sgil hanfodol i'w ddysgu yn ystod eich astudiaethau, a lluniwyd y llawlyfrau hyn yn ganllawiau cyflym i'ch cefnogi yn eich dysgu ac i helpu i'ch arwain drwy'r hyn sy'n gallu ymddangos yn eithaf dryslyd ar brydiau. Mae'r llawlyfrau cyfeirnod ar gael i'r pedair arddull a ddefnyddir yn y Drindod Dewi Sant, gydag awgrymiadau ar gyfer adnoddau pellach, manwl a chynghor ynghylch cael cefnogaeth gan eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd. I ddysgu rhagor am lôn-ladrad a chyfeirnod, archwiliwch ein tudalen Sgiliau Academaidd a Gwybodaeth ar wefan y llyfrgell.

Hoffem ddiolch i'r staff academaidd a gymerodd ran am eu hamser, eu hamynedd a'u mewnbwn wrth ddatblygu'r llawlyfrau hyn, gan obeithio eu bod yn darparu adnodd defnyddiol.

Rydym yn falch o dderbyn adborth ar y canllawiau hyn, a fydd yn cael eu hadolygu. Cysylltwch â library@uwtsd.ac.uk gydag unrhyw awgrymiadau.

Tîm Cyswllt Academaidd y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Adolygwyd yr adnodd ddiwethaf: Hydref 2024

Dyddiad Adolygu Nesaf: Awst 2025

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?	3
Beth yw cyfeirnod?	3
Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?	4
Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?	4
Sut caf i help a chefnogaeth bellach?	4
Dull Cyfeirnod Harvard: Yr Hanfodion	5
Cyfeiriad yn y testun	5
Rhestr gyfeiriadau	5
Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhai yn fy ngwaith?	6
Dyfyniadau	6
Dyfyniad hir - mwy na 30 gair neu 2 linell	6
Dyfyniad byr - hyd at 30 gair neu 2 linell	6
Aralleirio a chrynhai	6
Sut dylwn i gyfeirnod mathau penodol o adnoddau?	7
1. Llyfrau ac e-lyfrau	7
2. Erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd	9
3. Rhynggrwyd	11
4. Cynadleddau	12
5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi	13
6. Adroddiadau a chanllawiau a gyhoeddwyd	15
7. Cyfreithiol	16
8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol	19
9. Adolygiadau	21
10. Delweddau	21
11. Perfformiadau byw	23
12. Ffilm a theledu	24
13. Cyfathrebu personol	26
14. Llawysgrifau	27
Rhestr Termiau	27
Iaith	28
Meddalwedd Gyfeirnod	28

Cyflwyniad

Mae pedair arddull gyfeirnodol a argymhellir i'w defnyddio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

- APA (Cymdeithas Seicolegol America)
- Harvard
- IEEE (Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg)
- MHRA (Cymdeithas Ymchwil y Dyniaethau Modern)

Cewch wybod pa safon gyfeirnodol y dylech ei defnyddio drwy edrych yn eich Llawlyfr Rhaglen. Mae'r holl lawlyfrau cyfeirnodol ar gael ar-lein: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/library/partnership-student-and-external-borrowers>

Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?

Diben y llawlyfr hwn yw darparu ar eich cyfer egwyddorion sylfaenol cyfeirnodol, a'ch rhoi ar ben ffordd i ddeall popeth am gyfeirnodol. Mae'r llawlyfr yn darparu enghreifftiau o sut i greu cyfeiriadau yn y testun, a chyfeiriadau i'r rhestr gyfeiriadau, ar gyfer rhai o'r ffynonellau mwyaf cyffredin y byddech efallai'n dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau.

Dangosir enghraifft o sut y gallai'r cyfeiriad ymddangos yn eich **testun** yn y blwch hwn.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich **rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth** yn y blwch hwn.

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r llawlyfr hwn fod yn gynhwysfawr, a cheir enghreifftiau a chyfarwyddyd ychwanegol yn:

- **Cronfa ddata Cite Them Right (ar-lein)**
- **Argraffiad cyfredol Pears, R. a Shields, G. (2022) *Cite them right: the essential referencing guide*. 12th edn. Basingstoke: Bloosbury.**

Gellir dod o hyd i gopiau ym mhob llyfrgell PCYDDS.

Dylech hefyd gyfeirio at ein [sesiynau sgiliau gwybodaeth ar-lein](#), a fydd yn helpu i gefnogi'ch dysgu a'ch dealltwriaeth o gyfeirnodol.

Beth yw cyfeirnodol?

Wrth lunio aseiniad academiaidd, bydd disgwyl i chi gydnabod gwaith pobl eraill drwy ei gyfeirnodol mewn fformat cydnabyddedig a chyson. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion yr adnoddau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad. Mae nifer o resymau pam mae hyn yn angenrheidiol:

- Dangos ehangder yr ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef.
- Ychwanegu hygredd academiaidd at eich dadleuon.
- Galluogi darllenwyr i ddod o hyd i'r ffynonellau rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith.
- Cydnabod gwaith pobl eraill ac osgoi llên-ladrad damweiniol.

Sut dylwn i osgoi llên-ladrad?

Mae cyfeirnodî'n gywir yn gallu eich helpu i osgoi llên-ladrad, sef honni mai eich gwaith chi yw gwaith rhywun arall. Gellir dod o hyd i ddiffiniad cyflawn y Brifysgol o llên-ladrad yn rheoliadau'r Brifysgol: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd>.

Gall llên-ladrad fod yn fwriadol neu'n ddamweiniol; heb gyfeirnodî cywir, mae'n bosibl llên-ladrata gwaith rhywun arall yn ddamweiniol. Felly, bydd deall sut a phryd i gyfeirnodî'n eich helpu i osgoi hyn yn hawdd.

Oes gennych unrhyw gyngor cyn i mi ddechrau fy ngwaith?

- Gwnech yn siŵr eich bod yn gwybod pa arddull gyfeirnodî mae'ch Ysgol yn ei hargymell cyn dechrau. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn eich Llawlyfr Rhaglen.
- Cadwch gofnod o'r ffynonellau rydych yn eu darllen wrth fynd.
- Byddwch yn gyson yn y cofnodion a gadwch ac yn y ffordd y byddwch yn cyfeirnodî.
- Rhowch ddigon o amser i chi wirio'ch gwaith.
- Ceisiwch eich rhoi'ch hun yn lle'r darllenydd. Meddyliwch: "os oeddwn yn dymuno dod o hyd i ffynhonnell y wybodaeth yma, fyddwn i'n gallu?"
- Os nad ydych yn siŵr, ceisiwch eglurhad neu ofyn am help!

Sut caf i help a chefnogaeth bellach?

Sut caf i help a chefnogaeth bellach?

Cewch sesiwn yn y dosbarth ar gyfeirnodî yn ystod blwyddyn gyntaf eich cwrs. Mae deunydd cefnogol gennym ar gael ar-lein drwy ein rhaglen **Sgiliau Gwybodaeth**: <https://uwtsd.ac.uk/cy/adrannau/llyfrgell-ac-adnoddau-dysgu/sgiliau-academaidd-gwybodaeth> gyda gweithdai rheolaidd a chyfleoedd galw heibio hefyd ar gael gydol y flwyddyn academaidd. Dilynwch **@UWTSDLib** ar Facebook, X, neu Instagram, neu archwiliwch ein calendr digwyddiadau ar wefan y llyfrgell i weld diweddariadau ynghylch pryd a ble y cynhelir y rhain.

Mae Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd ar gyfer pob maes academaidd, a'i rôl yw eich cefnogi gydag amryw o sgiliau gwybodaeth ar hyd eich cwrs. Gallwch weld pwy yw'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a gwneud apwyntiad yma: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/adrannau/llyfrgell-ac-adnoddau-dysgu/defnyddio-ein-llyfrgelloedd/trefnu-apwyntiad> neu galwch yn eich llyfrgell agosaf yn y Drindod Dewi Sant.

Mae cymorth pellach ar gyfer cyfeirnodî hefyd ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr, ac mae sesiynau galw heibio ar gyfer sgiliau astudio ar gael ar draws y campysau.

Dylai myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner holi yn y llyfrgell yn eu sefydliad cartref i gael gwybod pa

Dull Cyfeirnodî Harvard: yr Hanfodion

Mae arddull gyfeirnodî Harvard yn cynnwys y canlynol:

Cyfeiriadau yn y testun

Defnyddir y rhain wrth gyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth o fewn testun eich aseiniad i ddangos o ble y daeth. Maent yn fanylion cryno'r ffynhonnell rydych yn cyfeirio ati ac yn gyffredinol yn cynnwys cyfenw'r awdur / golygydd, blwyddyn cyhoeddi ac, os oes angen, rhifau tudalennau / paragraff / lleoliad.

Enghraifft 1:

Mae cyfeirnodî'n sgil academiaidd hanfodol (Pears a Shields, 2002, t. 1).

Sylwer bod yr atalnod llawn yn dod ar ôl eich cyfeiriad, nid o'i flaen, am ei fod yn rhan o'ch brawddeg.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfenw'r awdur yn y cyfeiriad yn y testun os ydych yn cyflwyno'r awdur yng nghorff eich gwaith. Byddai hyn yn ailadrodd diangen!

Enghraifft 2:

Yn ôl Pears a Shields (2022, t. 1) mae cyfeirnodî'n sgil academiaidd hanfodol.

Y rhestr gyfeiriadau

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn eich cyfeiriad yn y testun yn cyfeirio'ch darlennydd at eich rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth ar ddiwedd eich gwaith. Bydd y rhestr hon yn cynnwys cofnod llyfryddol llawn yr holl gyfeiriadau rydych wedi'u cyfeirnodî yn eich testun.

Enghraifft:

Pears, R. and Shields, G (2022) Cite them right: the essential referencing guide. 12th edn. London: Bloomsbury.

Dylai alluogi unrhyw ddarlennydd i ddod o hyd i'ch ffynhonnell wreiddiol. Trefnir rhestr gyfeiriadau yn nhrefn y wyddor yn ôl cyfenw'r awdur neu, os nad oes awdur, yn ôl y teitl. Ychydig iawn o briflythrennau a ddylai ymddangos mewn teitlau. Y rheol gyffredinol yw mai llythyren gyntaf y gair cyntaf yn unig sy'n cael priflythyren ynghyd ag unrhyw enwau priod, (sylwer bod rhai eithriadau i'r rheol hon).

Weithiau gall eich tiwtor hefyd ofyn am lyfryddiaeth. Mae llyfryddiaeth yn rhestr o'r holl ffynonellau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad, os ydych wedi'u cyfeirnodî yn eich testun neu beidio ac felly mae'n fwy cynhwysfawr na rhestr gyfeiriadau. Os nad ydych yn siŵr p'un sydd ei hangen, gofynnwch i'ch darlithydd.

Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhai yn fy ngwaith?

Dyfyniadau

Ystyr dyfyniad yw'ch bod yn cymryd yr union eiriau a ddefnyddir gan awdur arall ac yn eu gosod yn eich gwaith. **Rhaid i chi gynnwys rhif y dudalen (neu'r paragraff os nad oes rhifau tudalen).**

Sylwer: Dylid defnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn gynnil ac ond pryd maent yn berthnasol i'r ddadl rydych yn ei gwneud yn eich gwaith.

Dyfyniad hir - mwy na 30 gair neu 2 linell

Fformat:

- Crëwch baragraff ar wahân
- Mewnosodwch y paragraff
- Nid oes angen dyfynodau
- Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi a rhif y dudalen / rhif y paragraff (mewn cromfachau crwn)

Enghraifft:

Eu haelodau unigol yw hanfod sefydliadau. Mae'r unigolyn yn nodwedd ganolog o ymddygiad sefydliadol, p'un a yw'n gweithredu ar ei ben ei hun neu'n rhan o grŵp, mewn ymateb i ddisgwyliadau'r sefydliad, neu o ganlyniad i ddylanwadau'r amgylchedd allanol (Mullins, 2019, t. 30).

Dyfyniad byr - hyd at 30 gair neu 2 linell

Fformat:

- Cynhwyswch ef yng nghorff y testun
- Amgaewch ef mewn dyfynodau dwbl
- Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi a rhif y dudalen / rhif y paragraff (mewn cromfachau crwn)

Enghraifft:

Nid mathau syml mo cymeriadau Hardy. Maent yn "fully realized human beings, with all their potential for individual freedom of choice and action" (Dunmore, 2017, para 5).

Aralleirio a chrynhai

Aralleirio yw pan fyddwch yn defnyddio syniad rhywun arall ac yn ei roi yn eich geiriau eich hun. Crynhai yw pan fyddwch yn rhoi trosolwg cryno o syniad rhywun arall. Byddai angen nodi rhif tudalen (neu baragraff) yn eich cyfeiriad yn y testun dim ond os ydych yn cyfeirio at ardal neu ran benodol iawn o'r testun. Bydd angen i chi ddilyn eich barn eich hun a ydy hyn yn angenrheidiol. Rhowch eich hun yn lle'r darlennydd: ydych chi'n cyfeirio at waith cyfan, cysyniad, neu at ran fach ohono?

Enghraifft (o grynhoi):

Noda Dunmore (2017) fod Hardy yn cyflwyno i'r darlennydd gymeriadau crwn sydd â'r gallu i weithredu'n annibynnol, ond bod y rhain wedi'u gosod mewn cyd-destun lle mae'u dewisiadau'n cael eu cyfyngu'n ddifrifol gan hap a damwain a ffawd.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1. Llyfrau ac e-lyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, rhif tudalen)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur/golygydd
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl (mewn italig)
- Argraffiad (os ydy'n berthnasol)
- Cyhoeddwr

(Smith, 2016, t. 5)

Smith, E. (2016) *How to improve your research project*. 2nd edn. Kiln Press.

Gan fod llyfrau printiedig ac electronig bron yn union yr un fath, nid oes angen nodi a ydy'n electronig ai peidio oni bai am fersiwn electronig nad yw'n fersiwn union yr un fath â chyhoeddiad printiedig.

1.1 Llyfr â dau neu dri awdur

(Phillips a Renton, 2012, t. 54)

Phillips, E.O. and Renton, P. (2012) *Teaching mathematics today*. Canalside Press.

1.2 Llyfr â phedwar awdur neu fwy

(Morton *et al.* 2014, t. 37)

Neu

Yn ôl Morton *et al.* (2014) mae cerdded mynyddoedd yn cael effaith gadarnhaol ar...

Morton, A.C., Jones, B., Collins, S. and Zhen, K. (2014) *Walking and learning*. Sandpaper Press.

Sylwer ar y defnydd o'r talfyriad *et al* yn y cyfeiriad yn y testun yn unig. **Dylid rhestru pob awdur yn eich rhestr gyfeiriadau lawn.**

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1.3 Pennod o fewn llyfr â golygydd, ffynnonellau, gwyddoniaduron, neu eiriaduron.

Rhoddir teitl y bennod / cofnod 'yn' awdur / golygydd a theitl y llyfr.

(Neyroud, 2019, t. 16)

Neyroud, P. (2019) 'Ethical leadership on policing: towards a new evidence-based ethical professionalism?', yn P. Ramshaw, M. Simpson, and M. Silvestri (eds) *Police leadership: changing landscapes*. Palgrave Macmillan, tt. 3-22.

1.4 Llyfr heb awdur neu olygydd

Yn yr achos hwn byddwch yn defnyddio'r teitl yn hytrach na'r awdur. Wrth ei restru yn y rhestr gyfeiriadau a/neu'r llyfryddiaeth, byddwch yn ei restru yn nhrefn yr wyddor yn ôl ei deitl.

(*How to make an impact*, 2009, t. 1)

How to make an impact (2009) London: Avery and Perch.

1.5 Llyfr â sefydliad fel awdur

Yn yr achos hwn, ymdrinnir ag enw'r Sefydliad fel yr awdur.

(Organisation for Research into Primary Education, 2017, t. 21)

Organisation for Research into Primary Education. (2017) *Learning today*. McPhee and Jones.

1.6 Nifer o weithiau gan yr un awdur

Os ydynt wedi'u cyhoeddi mewn blynyddoedd gwahanol, rhestrwch nhw'n gronolegol. Os ydynt wedi'u cyhoeddi yn yr un flwyddyn, labelwch nhw a, b, c, ac ati.

Blynyddoedd gwahanol:
(McNamara, 2012, t. 53)

(McNamara, 2017, t. 20).

Yr un flwyddyn:
(Phelps, 2016a, t. 25)

(Phelps, 2016b, t. 19)

Different years:

McNamara, B.M. (2012) *Education for life*. Riverstory.

McNamara, B.M. (2017) *Lifelong learning*. Riverstory.

Same year:

Phelps, P.J. (2016a) *Healthy learning*. Castle Books.

Phelps, P.J. (2016b) *Nutrition in the early years*. Castle Books.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

1.7 Cyfeiriad eilaidd

Mae hwn yn ddarn o waith y cyfeiriwyd ato mewn rhywbeth rydych wedi'i ddarllen. Pan fo'n bosibl, osgowch gyfeiriadau eilaidd, ac ewch at y gwaith gwreiddiol.

Sylwer: Rhaid i chi ddefnyddio'r geiriau 'cyfeirnodwyd yn' neu 'dyfynnwyd yn'. Mae hyn yn dibynnu a yw'r awdur rydych yn ei ddarllen wedi aralleirio neu wedi dyfynnu gwaith yr awdur gwreiddiol.

Cyfeiriad yn y testun:

Disgrifia Barnett (2013, dyfynnwyd yn Morton, 2016, t. 17) "the importance of meeting special needs in the early years".

Neu:

Mae gwaith Barnett (2013, cyfeirnodwyd ym Morton, 2016, t. 17) ar anghenion arbennig yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol oherwydd...

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth

Morton, D.C. (2016) *Learning in the early years*. Jones & Bart.

Sylwer:

Dim ond y ffynhonnell rydych wedi'i darllen sy'n cael ei chynnwys yn eich rhestr gyfeiriadau.

2. Erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd lynu at y fformatau cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, rhif tudalen, os oes ei angen)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth

Printiedig:

- Awdur (cyfenw, blaenlythrennau)
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl yr erthygl (wedi'i amgáu mewn dyfynodau sengl)
- Teitl y cyfnodolyn (mewn italig - priflythyren ar lythyren gyntaf pob gair arwyddocaol)
- Cyfrol
- Rhifyn / rhan / rhif / mis (mewn cromfachau crwn)
- Rhif y dudalen neu rif yr erthygl

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

Yr uchod ynghyd â

- Ar gael yn: URL (Cyrchwyd: dyddiad)
- neu DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

2.1 Erthyglau Cyfnodolyn a gyhoeddwyd

Ar gyfer erthyglau cyn-cyhoeddi, sy'n ymddangos ar-lein, neu mewn cadwrfa ddigidol, dylech ddilyn yr enghreifftiau a roddir yn Cite Them Right.

Yn ôl Read a Muth (2021)...

(Smith a Gray, 2019)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth Printiedig:

Read, Q.D. and Muth, M.K. (2021) 'Cost-effectiveness of four food waste interventions: is food waste reduction a "win-win"', *Resources, Conservation and Recycling*, 168 (May) erthygl 105448. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.1016/j.resconrec.2021.105448>

Gyda rhif y rhifyn ac ystod tudalennau.

Smith, R. and Gray, P. (2019) 'The changing shape of youth justice: models of practice', *Criminology & Criminal Justice*, 19(5), tt. 554-571. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.1177/1748895818781199>

2.2 Erthygl mewn papur newydd

(Jones, 2016, t. 7)

Jones, P.J. (2016) 'STEM subjects win more funding', *The Times*, 4 Mai, t. 7.

2.3 Papur newydd electronig (ar-lein yn unig)

(Fox, 2016)

Fox, I.M. (2016) 'New report criticises lack of business leadership', *The Courier*, 9 January. Ar gael yn: <https://www.thecourier.com/world/jan/16/report-IBCC> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2016).

2.4 Erthyglau papur newydd (a gyrchwyd drwy gronfa ddata mewn llyfrgell)

Os gwnaethoch gyrchu'r erthygl drwy gronfa ddata mewn llyfrgell, e.e., NewsBank, rhwch enw'r gronfa ddata yn lle'r URL.

(Blain, 2018)

Blain, C.S. (2018) 'Brexit talks under threat', *The Echo*, 7 March. Ar gael yn: NewsBank (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2019).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

3. Rhynggrwyd

Weithiau mae'n gallu bod yn anodd dynodi'r math o wybodaeth y byddwch yn ei gweld ar y rhynggrwyd. Mae'n bwysig dynodi at beth rydych yn cyfeirio. Dilynwch yr enghreifftiau o sut i gyfeirnodu ffynonellau unigol, megis llyfrau, cyfnodolion, delweddau ac ati fel y'i dangosir yn y canllaw hwn, neu yng nghronfa ddata Cite Them Right. Bydd angen dilyn y rheol hon hefyd wrth gyfeirnodu dogfen PDF. Bydd angen i chi ddynodi'r fformat sy'n cyfateb yn fwyaf agos i'ch ffynhonnell.

Yn gyffredinol mae tudalennau gwe a grëwyd gan unigolion a sefydliadau'n glynu at y fformat canlynol. Gall elfennau fod ychydig yn wahanol, yn ddibynnol ar y ffynhonnell.

Cyfeiriad yn y testun:

Cyfenw'r awdur/sefydliad (blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur/sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y dudalen we mewn italig
- Ar gael yn: URL
- (Cyrchwyd: dyddiad)

3.1 Gwefan ag awdur

Mae Kennedy a Bandyopadhyay (2023) yn trafod...

Kennedy, N and Bandyopadhyay, A. (2023) *Linking police and healthcare data could help better indentify domestic abuse - new research*. Ar gael yn: <https://theconversation.com/linking-police-and-healthcare-data-could-help-better-identify-domestic-abuse-new-research-208986> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

3.2 Gwefan â sefydliad fel awdur

Yn ôl y Gwasanaeth Iechyd Gwladol [GIG o hyn ymlaen], (2022), mae rheoli maint dognau bwyd yn hanfodol er mwyn cynnal faint o galoriau a fwytwch bob dydd.

National Health Service [NHS] (2022) *Eating a balanced diet*. Ar gael yn: <https://www.nhs.uk/live-well/eat-well/how-to-eat-a-balanced-diet/eating-a-balanced-diet/> (Cyrchwyd: 12 Ionawr 2023).

3.3 Blog neu flog fideo

Mae angen teitl y wefan (mewn italig) a dyddiad / mis y postiad wrth gyfeirnodu blog neu flog fideo.

(Mewburn, 2023)

Mewburn, I. (2023) 'Mind the gap (in the literature)' *The Thesis Whisperer*, 26 May. Ar gael yn: <https://thesiswhisperer.com/2023/05/26/literaturereviewpain/> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

3.4 Fideo / ffilm ar wefan rannu - e.e. YouTube, TED Talks.

Mae angen y dyddiad lanlwytho (os ydy ar gael).

(Tholfsen, 2022)

Tholfsen, M. (2022) *Top 20 Microsoft OneNote tips and tricks 2022: how to use OneNote effectively & be more organized*. Ar gael yn: <https://youtu.be/I725xySvwug> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023)

3.5 Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae angen dyddiad/mis y postiad a'r platfform [mewn cromfachau sgwâr] wrth gyfeirnodu Facebook, X, Tik Tok a gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol eraill. Gweler Cite Them Right am enghreifftiau pellach.

Mae Eisteddfod 2023 wedi arddangos, toreth o ddoniau a rhai o berfformwyr gorau Cymru. (Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2023).

Eisteddfod Genedlaethol Cymru (2023) [Facebook]. Ar gael yn: <https://www.facebook.com/eisteddfod/> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

4. Cynadleddau

Mae trafodion a phapurau cynadleddau'n gallu cael eu cyhoeddi ar-lein neu mewn cyfnodolion. Bydd elfennau a'r drefn yn amrywio ychydig. Rhoddir enghreifftiau penodol isod ar gyfer y rheini sy'n cael eu cyhoeddi ar-lein.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, rhif tudalen)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur/golygydd
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y papur (wedi'i amgáu mewn dyfynodau sengl)
- Teitl y gynhadledd: is-deitl (mewn italig)
- Lleoliad a dyddiad y gynhadledd
- Lleoliad: cyhoeddwr
- Rhifau tudalennau (ar gyfer papurau)

Os y'i cyrchwyd ar-lein

- Ar gael yn: DOI neu URL (Cyrchwyd: dyddiad)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

4.1 Trafodion cynhadledd llawn a gyhoeddwyd (ar-lein)

Am drafodion cynhadledd llawn a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion, edrychwch yn Cite Them Right.

(The European Conference on Education, 2022)

The European Conference on Education (2022) *ECE22: the 10th European conference on education: official conference proceedings*. University College London (UCL) and online, 14 - 17 July. Nagoya: The International Academic Forum (IAFOR). Ar gael yn: <https://papers.iafor.org/proceedings/conference-proceedings-ece2022/> (Cyrchwyd 11 Awst 2023).

4.2 Papur cynhadledd unigol (ar-lein)

Am bapurau cynhadledd a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion, edrychwch yn Cite Them Right.

Mae Horverak a Langeland (2022) yn trafod sut, drwy adfyfrio, y gall plant gynyddu eu cymhelliant a datblygu gwell gwydnwch.

Horverak, M., & Langeland G. (2022) 'A systematic approach to mastering life - the five-step motivation method', *ECE22 the 10th European conference on education: official conference proceedings* ISSN:2188-1162. University College London (UCL) and online, 14-17 July. Nagoya: The International Academic Forum (IAFOR), tt. 21-31. Ar gael yn: <https://doi.org/10.22492/issn.2188-1162.2022.3>

5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau nad ydynt yn y parth cyhoeddus llynu at y fformatau cyffredinol isod. Sicrhewch fod gennych ganiatâd cyn defnyddio deunydd sydd heb ei gyhoeddi yn eich gwaith.

5.1 Adroddiad mewnol

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur/sefydliad, blwyddyn ei lunio)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur/sefydliad
- Blwyddyn ei lunio (mewn cromfachau crwn)
- Teitl yr adroddiad (mewn italig)
- Adroddiad mewnol - cynhwyswch enw'r sefydliad
- Heb ei gyhoeddi

Argymhellion yn yr adroddiad (Harris, 2019) ...

Harris, G. (2019) *Focus group recommendations*. Swansea Bay Health Trust. Heb ei gyhoeddi.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

5.2 Adroddiad cyfrinachol

Cyfeiriad yn y testun:

(Asiantaeth a wnaethpwyd yn ddienw, blwyddyn ei lunio)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Asiantaeth a wnaethpwyd yn ddienw [mewn cromfachau sgwâr]
- Blwyddyn ei lunio (mewn cromfachau crwn)
- Teitl (mewn italig); rhan ddienw [cromfachau sgwâr]
- Man ei lunio
- Lluniwr dienw [mewn cromfachau sgwâr]
- Heb ei gyhoeddi

Trafododd yr adroddiad... (Ysgol leoli, 2019) ...

[Ysgol leoli] (2019) [*Ysgol leoli*] *adroddiad ar blentyn bregus A*. Abertawe: [Ysgol leoli]. Heb ei gyhoeddi.

5.3 Traethawd ymchwil

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyflwyno, rhif tudalen os oes angen)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Awdur
- Blwyddyn cyflwyno (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y traethawd ymchwil (mewn italig)
- Datganiad gradd, e.e., Traethawd ymchwil PhD heb ei gyhoeddi
- Corff dyfarnu graddau

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

- Ar gael yn: DOI neu URL (Cyrchwyd: dyddiad)

"Fodd bynnag, yn draddodiadol, cydnabuwyd bod Cymru wedi bod ar gam gwahanol o ddatblygu twristiaeth i'r gwledydd o ddayblygu twristiaeth i'r gwledydd cyfatebol iddi yn y DU..." (Thomas, 2018, t. 236)

Thomas, D.H. (2018) Managing online communications and feedback relating to the Welsh visitor attraction experience: apathy and inflexibility in tourism marketing practice? PhD thesis. Univeristy of Wales Trinity Saint David. Ar gael yn: <https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/1264/> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

5.4 AI Cynhyrchiol (e.e. ChatGPT)

Mae'r cynnwys gan AI cynhyrchiol megis ChatGPT wedi e ddynodi'n ddeunydd anadferadwy. Mae'n amhosibl i ddarllen ydd fynd ar ei ôl neu ei ailadrodd (gan nad yw wedi'i gyhoeddi) ac ar gael i chi yn unig. **Felly, nid yw cyfeirnodu AI Cynhyrchiol yn briodol yn y rhan fwyaf o achosion.**

Uniondeb academiaidd yw bod yn onest mewn unrhyw waith a wnewch chi yn eich astudiaethau. Mae defnyddio trydydd partïon (ffrindiau, melinau traethawd neu ddeallusrwydd artiffisial) i greu gwaith, rydych chi'n honni, wedyn, mai chi a'i gwnaeth **yn annerbyniol**. Mae'r rhaid i chi gadarnhau gyda'ch tiwtor i weld a ganiateir defnyddio AI a sut mae'n dymuno i chi ei ddefnyddio.

Byddwch yn derbyn arweiniad ar unrhyw ddefnydd o AI yn eich gwaith yn eich briff aseiniad. Os ydych wedi cael **caniatâd penodol** i ddefnyddio AI Cynhyrchiol yn eich gwaith, dylech **ei gydnabod** yn unol â chyfarwyddiadau eich briff aseiniad.

- **Ar gael i'r cyhoedd** ar-lein (e.e. delwedd, neu erthygl, wedi'i chynhyrchu gan AI) sy'n galluogi eraill i'w gweld neu ei hadfer. Byddwch yn cyfeirnodu hwn yn ôl ffynhonnell lle mae i'w gael (e.e. gwefan, llyfr, erthygl ac ati).

6. Adroddiadau a chanllawiau a gyhoeddwyd

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adroddiadau a chanllawiau llynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur/sefydliad, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Awdur/sefydliad / Enw adran y llywodraeth
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl yr adroddiad (mewn italig)
- Man cyhoeddi: cyhoeddwr

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r man cyhoeddi a'r cyhoeddwr, nodwch:

- Ar gael yn: URL (Cyrchwyd: dyddiad)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

6.1 Cyhoeddiadau'r llywodraeth

Ar gyfer cyhoeddiadau'r llywodraeth, defnyddiwch adran y llywodraeth pan fo'n bosibl. Os na nodir yr adran, gallwch ddefnyddio Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, ac ati fel yr awdur.

(Adran Addysg, 2021)

Department for Education (2021) *Consolidated annual report and accounts*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1041620/CCS0121879180-001_DFE_Annual_Report_20-21_Web-Accessible.pdf (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

(Llywodraeth Cymru, 2022)

Llywodraeth Cymru (2022). *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr: fframwaith ymchwil a gwerthuso*. Adroddiad GSR rhif 73 / 2022. Ar gael yn: *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso* (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

6.2 Adroddiad blynyddol cwmni

(Tesco Plc, 2022)

Tesco Plc (2022) *Annual company report 2022*. Ar gael yn: <https://www.tescoplac.com/media/an0cp1co/tesco-annual-report-202.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

6.3 Ymchwil i'r farchnad / Adroddiadau ariannol o gronfa ddata y tanysgrifir iddi

Yn ôl MarketLine (2022, t. 17), disgwylir y bydd menywod yn cynrychioli 30% o'r gweithlu seiberddiogelwch byd-eang erbyn 2025...

MarketLine (2022) *Cybersecurity: Microsoft and Google are leading cybersecurity M&A activity*. ML00026-053. Ar gael yn: Cronfa Ddata MarketLine Advantage (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

6.4 Rheoliadau, canllawiau, protocolau

Y cyfarwyddyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal [NICE o hyn ymlaen], (2015)

National Institute for Health and Care Excellence [NICE] (2015) *Type 1 diabetes in adults: diagnosis and management*. NG17. Ar gael yn: <https://www.nice.org.uk/guidance/ng17> (Cyrchwyd: 22 Chwefror 2022).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7. Cyfreithiol

Rhoddir yr enghreifftiau isod o gyhoeddiadau cyfreithiol yn y fformat awdur-dyddiad (Harvard). Gall hyn fod yn wahanol i systemau cyfeirnodu, megis Safon Rhydychen ar gyfer Cyfeirnodu Awdurdodau Cyfreithiol (OSCOLA), a ddefnyddir mewn nifer o ysgolion y gyfraith yn y DU. Mae deddfwriaeth yn y DU ar gael ar [Legislation.gov.uk](https://www.legislation.gov.uk) a thrwy gronfa ddata'r llyfrgell, [Lexis Plus UK](https://www.lexisplus.co.uk).

Defnyddiwch y [Cardiff Index of Abbreviations](#) i ganfod beth mae'r talfyriadau o deitlau adroddiadau'n ei gynrychioli.

Sylwer: Fel arfer bydd myfyrwyr y gyfraith yn gosod unrhyw ddeddfwriaeth a gyfeirnodwyd ar wahân i ffynonellau academiaidd eraill a chyfraith achosion yn y rhestr gyfeiriadau. Gofynnwch i'ch tiwtor.

Am restr gynhwysfawr o gyhoeddiadau llywodraeth a chyfreithiol, edrychwch yn Cite Them Right.

7.1 Deddf Seneddol (Statud)

Mae'r rhan fwyaf o Ddeddfau a rhannau o Ddeddfau bellach ar gael fel dogfennau PDF neu dudalennau gwe. Defnyddiwch y teitl byr a'r flwyddyn y daeth yn ddeddf.

Cyfeiriad yn y testun:

(Teitl y ddeddf (mewn italig) cynhwyswch y flwyddyn)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Enw'r ddeddf (mewn italig) cynhwyswch y flwyddyn, y bennod a'r adran pan fo'n berthnasol.
- Ar gael yn: URL (Cyrchwyd: dyddiad)

Mae deddfwriaeth y llywodraeth bellach yn atgyfnerthu'r dull hwn (*Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861*).

Offences Against the Person Act 1861, c. 100. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Vict/24-25/100/contents> (Cyrchwyd 11 Awst 2023).

7.2 Offeryn Statudol (OS)

Mae offeryn statudol yn ddeddfwriaeth eilaidd a grëwyd gan weinidogion dan y pwerau a roddwyd iddynt gan y Ddeddf seneddol.

Cyfeiriad yn y testun:

(Enw/teitl (mewn italig) cynhwyswch y flwyddyn)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Enw/teitl (mewn italig) cynhwyswch y flwyddyn.
- Blwyddyn a rhif yr OS (mewn cromfachau crwn)
- Ar gael yn: URL (Cyrchwyd: dyddiad)

Gan gyfeirio at y *Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Diwygiadau) 2022...*

The Public Contracts (Amendments) Regulations 2022 (SI 2022/ 1390). Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/1390/made> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7.3 Deddfwriaeth Cymru

Rhwng 2007 a 2011, byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio mesurau (mccc). O 2012, byddai'n pasio Deddfau (dccc). O 6 Mai 2020, ailenwyd y corff yn Senedd Cymru a byddai'n pasio Deddfau'r Senedd (dsc). Mae gan Offerynnau Statudol Cymru rhif Cy. yn ychwanegol at y rhif OS a'r flwyddyn.

Cyfeiriad yn y testun:

(Teitl (mewn italig) cynhwyswch y flwyddyn)

Mae *Mesur Addysg (Cymru) 2011*, yn cadarnhau'r safbwynt hwn.

Dangosir hyn yn *Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022*.

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Teitl y Mesur gan y Cynulliad / Deddf / OS (Cymru) a'r flwyddyn (mewn italig)
- Rhif mccc / dccc / dsc / OS (rhif Cy.) (mewn cromfachau crwn)
- Ar gael yn: URL (Cyrchwyd: dyddiad)

Mesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7). Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/7/contents> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022 Rhif. 1202 (cy.247) (c.93). Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/1202/made> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

7.4 Adroddiad cyfreithiol (achos)

Achosion cyn 2002.

Cyfeiriad yn y testun:

Enw'r achos, blwyddyn cyhoeddi mewn cromfachau crwn

Mae'r amddiffyniad a roddwyd yn 'Bibby Cheshire v Golden Wonder Ltd' (1972) yn enghraifft o...

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Enw'r achos (mewn dyfynodau sengl)
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Enw talfyredig yr adroddiad cyfreithiol (mewn italig)
- Rhif y gyfrol pan fo'n berthnasol
- Tudalennau os ydynt ar gael

'Bibby Cheshire v Golden Wonder Ltd' (1972) *WLR*, 1, tt. 1487-1492.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

7.5 Adroddiad cyfreithiol (achos) - cyfeiriad niwtral

Er 2002, rhoddwyd cyfeiriad niwtral i achosion er mwyn helpu i'w dynodi ar-lein heb gyfeirio at yr adroddiad cyfreithiol lle y'u cyhoeddwyd. **Sylwer: wrth gyfeirnodu Lexis, defnyddiwch y ddolen barhaol o gatalog y llyfrgell i gronfa ddata Lexis yn lle URL y dudalen.**

Cyfeiriad yn y testun:

Enwau'r partïon wedi'u hamgáu mewn 'dyfynodau sengl' (blwyddyn)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Enwau'r partïon (mewn dyfynodau sengl)
- Blwyddyn (mewn cromfachau crwn)
- Talfyriad enw'r llys a rhif yr achos
- Cronfa ddata neu wefan (mewn italig)
- Ar gael yn: DOI neu URL (Cyrchwyd: dyddiad).

Mae achos 'R v Field' (2021) yn profi'r pwynt hwn.

'R v Field' (2021) EWCA Crim, 380, *Lexis Plus UK*. Ar gael yn: https://librarysearch.uwtsd.ac.uk/permalink/44WHELF_UWTSD/11c0168/alma99100475802402421 (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at wybodaeth wyddonol a thechnegol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

8.1 Safon Dechnegol

Cyfeiriad yn y testun:

(Enw'r sefydliad, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Awdur corfforaethol / sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Llythrennau, rhifau a theitl y safon (mewn italig)
- Man cyhoeddi: Cyhoeddwr

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

Os y'i cyrchwyd ar-lein, yn lle'r man cyhoeddi a'r cyhoeddwr nodwch:

- Ar gael yn: DOI neu URL (Cyrchwyd: dyddiad)

(British Standards Institution, 2004).

British Standards Institution (2020) *BS EN ISO 717-1:2020: Acoustics - rating of sound insulation in buildings and of building elements. Airborne sound insulation*. London: BSI

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

8.2 Patent

Cyfeiriad yn y testun:

(Dyfeisiwr/dyfeiswyr, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Dyfeisiwr
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl (mewn italig)
- Sefydliad awdurdodi
- Rhif Patent
- Ar gael yn: URL
- (Cyrchwyd: dyddiad)

Ceir tystiolaeth bellach o hyn yn y ddogfen (O'Brian, Standen a Warren, 2014).

O'Brian, T., Standen, D. and Warren, M. (2014) *Docking station with rotating connector for media player*. UK International Property Office Patene no. GB2508331. Ar gael yn: <https://worldwide.espacenet.com/searchResults?DB=EPODOC&PN=GB2508332&ST=advanced&compact=false> (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

8.3 Graff

Cyfeirnodwch le y daethoch o hyd i'r graff, e.e., llyfr, neu wefan a chynhwyswch y gair graff.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl (mewn italig)
- Man cyhoeddi: Cyhoeddwr
- Rhif tudalen neu rif ffigur y graff
- Graff

Gellir dangos yr effaith hon yn eglur mewn graff (Wolf, 2017, t. 34).

Wolf, E. (2017) A comparison of water usage by region. Carmarthen: Bridge Press, t. 34, graff.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

9. Adolygiadau

Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adolygiadau yn glynu at y fformat cyffredinol isod. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau ffilm, drama a llyfrau. Gall elfennau amrywio ychydig.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r adolygydd, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Enw'r adolygydd (os rhoddir)
- Blwyddyn cyhoeddi'r adolygiad (mewn cromfachau crwn)
- Teitl yr adolygiad (wedi'i hamgáu mewn dyfynodau sengl)
- Adolygiad o ... (y teitl sy'n cael ei adolygu mewn italig)
- Gan ... awdur/cyfarwyddwr y gwaith
- Manylion cyhoeddi (teitl mewn italig)

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

Yn lle'r man cyhoeddi a'r cyhoeddwr nodwch:

- Ar gael yn: URL
- (Cyrchwyd: dyddiad)

9.1 Adolygiad o ffilm

Yn ddiweddar bu ailwerthusiad o enw da'r ffilm (Connington, 2009).

Connington, K.L. (2009) 'A rediscovered classic'. *Adolygiad o Dark Enemy*, cyfarwyddwyd gan George Phelps. Ar gael yn: <https://www.imdb.com/pp03489/reviews> (Cyrchwyd: 19 Ebrill 2016)

10. Delweddau

Efallai byddwch yn dymuno cynnwys delweddau yn eich gwaith. Gallwch ddefnyddio delweddau at ddibenion addysgol cyfyngedig yn rhan o drwydded CLA y Brifysgol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n [hwb hawlfraint](#). Rhaid i chi ei gwneud yn eglur i'ch darllenydd yn eich testun os ydych wedi'u haddasu mewn unrhyw ffordd a chynnwys y geiriau 'addaswyd o' yn eich cyfeiriad.

Cynnwys delweddau

Wrth gynnwys delweddau gwreiddiol neu rai a addaswyd (neu dablau) yn eich gwaith, rhaid i chi eu labelu (â rhif ffigur / tabl, a'r teitl a chyfeiriad yn dilyn), er mwyn gallu eu trafod yn eich testun. Fel arfer caiff y label ei osod o dan eich delwedd.

Bydd ffigurau / tablau dilynol yn cael eu rhestru yn ôl eu rhif drwy eich gwaith.

Enghraifft yn y testun: Dengys ffigurau gwerthiant yn Ffigur 3 fod...

Enghraifft o label: Ffigur 3: Cymharu data gwerthiant (addaswyd o Jones, 2019, t. 2)

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

Os byddwch yn cynnwys delwedd sy'n eiddo i chi (e.e. logo, ffotograff, ac ati nad yw ar gael yn gyhoeddus) fel arfer ni fydd angen i chi gynnwys cyfeiriad, ond dylech gynnwys teitl a nodi mai eich gwaith chi yw ef drwy ddefnyddio rhywbeth tebyg i 'casgliad personol', neu 'delwedd bersonol'.

Enghraifft yn y testun: Fel y'i dangosir yn Ffigur 4.

Enghraifft o label: Ffigur 4: Blodau'r haul gyda'r nos (casgliad personol, 2023).

Fodd bynnag, os mai ffotograff o baentiad, cerflun ac ati sydd gennych ac rydych yn cyfeirio at y darn hwnnw o gelf, dylech ei gyfeirnodu felly.

Dylech fformatio'ch cyfeiriad yn ôl yr hyn rydych yn cyfeirio ato a lle rydych wedi'i weld (e.e. mewn llyfr, gwefan ac ati).

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at ddeunyddiau gweledol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r artist, blwyddyn cyhoeddi)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

Printiedig:

- Artist
- Blwyddyn, os ydy'n hysbys (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y gwaith (mewn italig)
- Cyfrwng [mewn cromfachau sgwâr], os ydy'n angenrheidiol
- Sefydliad/casgliad lle cedwir y gwaith
- Dinas lle cedwir y gwaith
- Dyddiad y'i gwelwyd (mewn cromfachau crwn)

Os y'i cyrchwyd ar-lein:

Yn lle'r sefydliad a'r ddinas rhwch:

- Ar gael: URL (Cyrchwyd: dyddiad)

10.1 Paentiad / Iluniad

Gwaith cyfarwydd gan Monet yw ei baentiad *Water Lilies* (1906)

Os ydych yn cynnwys y ddelwedd yn eich testun:

Mae Monet yn enghraifft o hyn (Ffigur 1.)
Ffigur 1: *Water Lilies* (Monet, 1906)

Monet, C. (1906) *Water Lillies* [Olew ar gynfas]. Ar gael yn: https://library-artstor.org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/#/asset/AWSS35953_35953_41726432;prevRouteTS=1692367089125 (Cyrchwyd: 11 Awst 2023).

10.2 Ffotograffau (rhyngwrwyd).

Am enghreifftiau pellach, gweler Cite Them Right.

(Jarvis, 2022)

Jarvis, C. (2022) *Deep Dive*. Ar gael yn: <https://www.chasejarvis.com/photos/deep-dive/> (Cyrchwyd: 18 Awst 2023).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

10.3 Darluniad, ffigur, diagram, logo a thabl mewn llyfr

Wrth gyfeirio at ddelwedd (ond nid yn ei chynnwys), dilynwch y canllawiau cyfeirnodu ar gyfer eich ffynhonnell e.e. llyfr, gwefan, erthygl. Yn eich cyfeiriad yn y testun rhwch rif y dudalen a disgrifiad, (e.e. tabl, llun, ffig.) o'r hyn a ddefnyddiwyd, i helpu eich darlennydd i ddynodi lleoliad y ddelwedd.

Enghraifft: darluniad mewn llyfr

Mae paentiad Stewart yn tynnu sylw at y nodwedd hon o'r tŷ (Lewis, 1995, tt. 78-79, llun)

Lewis, P.R. (1995) *The art of the stately home*. Oxford: Century Books.

11. Perfformiadau byw

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at berfformiadau byw lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

11.1 Dawns

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r coreograffydd, blwyddyn y première)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Coreograffydd (cor.)
- Blwyddyn y première (mewn cromfachau crwn)
- Teitl (mewn italig)
- Cyfarwyddwyd / perfformiwyd / cynhyrchwyd gan (os ydy ar gael)
- Lleoliad a'r dyddiad y'i gwelwyd [mewn cromfachau sgwâr]

Roedd y perfformiad yn cynnwys llawer o ystumiau'r dyfeisiwr ei hun (Steele, 1953).

Steele, E. (cor.) (1953) *Work day blues*. Perfformiwyd gan Little Theatre Group [Red Shed Theatre, Llundain. 5 Mai 2016].

11.2 Drama

Cyfeiriad yn y testun:

(Teitl (mewn italig), blwyddyn perfformio)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Teitl (mewn italig)
- Gan awdur
- Blwyddyn perfformio (mewn cromfachau crwn)
- Cyfarwyddwyd gan ...
- Lleoliad a'r dyddiad y'i gwelwyd [mewn cromfachau sgwâr]

Roedd dyluniad y set yn gyflawniad syfrdanol (*Macbeth*, 2023).

Macbeth gan William Shakespeare (2023) Cyfarwyddwyd gan Abigail Williams [The Globe Theatre, Llundain, 19 Awst].

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

12. Ffilm a theledu

Bydd llawer o raglenni ffilm a theledu nawr yn cael eu gwyllo ar-lein drwy wasanaeth ffrydio, megis BBC iPlayer, ITV Hub, Netflix, Amazon Prime, Box of Broadcasts, Disney+ ac Apple TV.

Dangosir enghreifftiau penodol. Mae enghreifftiau pellach i'w gweld ar gronfa ddata Cite Them Right.

12.1 Rhaglen deledu: rhaglen unigol

Cyfeiriad yn y testun
(Teitl, dyddiad)

Ymhlith y teithiau niferus a wnaethpwyd roedd... (The Dambusters at 75, 2014).

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Teitl y rhaglen (mewn italig)
- Blwyddyn darlledu (mewn cromfachau crwn)
- Sianel ddarlledu / Cwmni cynhyrchu
- Dyddiad darlledu (dyddiad/mis)

Ar gyfer darllediadau byw, cynhwyswch:

- Amser darlledu

Yn achos rhaglenni a ffrydiwyd, cynhwyswch:

- Ar gael yn: Platfform ffrydio (dyddiad y'i cyrchwyd)

Darllediad byw:

The Dambusters at 75: what happened next (2014) Channel 5 Television, 26 Mai, 21.00.

Rhaglen a ffrydiwyd:

The Dambusters at 75: what happened next (2014) Channel 5 Television, 26 Mai. Ar gael yn: Box of Broadcasts (Cyrchwyd: 15 Gorfennaf 2017).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

12.2 Rhaglenni teledu: pennod o gyfres / tymor

Cyfeiriad yn y testun:

(Teitl y bennod 'mewn dyfynodau sengl' a blwyddyn darlledu)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Teitl y bennod (mewn dyfynodau sengl) os ydy'n hysbys; os nad yw, defnyddiwch deitl y gyfres
- Blwyddyn darlledu / y darllediad gwreiddiol (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y gyfres/tymor (mewn italig)
- Rhifau'r gyfres/tymor a'r bennod
- Cwmni cynhyrchu / sianel
- Dyddiad darlledu (dyddiad/mis)

Ar gyfer darllediadau byw, cynhwyswch:

- Amser darlledu

Yn achos rhaglenni a ffrydiwyd, cynhwyswch:

- Ar gael yn: Plattform ffrydio (dyddiad y'i cyrchwyd)

('Life beyond the lobby, Royal Mansour, Morocco', 2022).

Darllediad byw:

'Life beyond the lobby, Royal Mansour, Morocco' (2022) *Amazing Hotels*, cyfres 1, pennod 4. BBC Scotland Television. 1 Gorffennaf, 21.00.

Ffrydiwyd:

'Life beyond the lobby, Royal Mansour, Morocco' (2022) *Amazing Hotel*, cyfres 1, pennod 4. BBC Scotland Television, 1 Gorffennaf. Ar gael yn: Box of Broadcasts. (Cyrchwyd: 24 Awst 2022).

12.3 Darluniad, ffigur, diagram, logo a thabl mewn llyfr

Edrychwch ar Cite Them Right am enghreifftiau pellach o sylwebaethau cyfarwyddwr a chyfweliadau.

Cyfeiriad yn y testun:

Ffilmio'r frwydr (War Horse, 2011)

Ffilm a wylwyd mewn sinema:

War Horse (2011) Cyfarwyddwyd gan S. Spielberg. [ffilm nodwedd]. Los Angeles: Dreamworks

Ffilm a wylwyd ar DVD/Blu-ray:

War Horse (2011) Cyfarwyddwyd gan S. Spielberg. [DVD]. Los Angeles: Dreamworks.

Ffilm a wylwyd ar blatfform ffrydio:

War Horse (2011) Cyfarwyddwyd gan S. Spielberg. Ar gael yn: Netflix (Cyrchwyd: 21 Ebrill 2017).

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

13. Cyfathrebu personol

Sgyrsiau, Skype, ffôn, FaceTime, e-bost, neges destun, llythyr.

Mae'r rhain yn cynnwys sgyrsiau (heb eu recordio), Skype, Teams, Zoom, FaceTime yn ogystal ag e-bost, neges destun, llythyrau ac ati. Wrth ddefnyddio cyfathrebu personol, sicrhewch fod gennych ganiatâd yr anfonwr cyn ei gyfeirnodu, oherwydd nid yw'r rhain yn y parth cyhoeddus.

Cyfeiriad yn y testun:

(Cyfenw'r anfonwr, blwyddyn cyfathrebu)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Anfonwr / siaradwr
- Blwyddyn cyfathrebu (mewn cromfachau crwn)
- Platform /cyfrwng
- Derbynnnydd
- Diwrnod/mis

Cadarnhawyd hyn gan Jones (2019).

WhatsApp:

Jones, F. (2019) Neges WhatsApp i David Evans, 10 Ionawr.

14. Llawysgrifau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lawysgrifau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

14.1 Casgliad o lawysgrifau

Cyfeiriad yn y testun:

(Lleoliad y casgliad, enw'r casgliad Llsgr)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Lleoliad y casgliad
- Enw'r casgliad
- Llsgr.

Mae cofnodion yn cadarnhau bod credoau o'r fath yn dal mewn bodolaeth yn Swydd Efrog ar yr adeg hon (York Library, Pendlemerry Witch Trials MS).

York Library, Pendlemerry Witch Trials Llsgr.

Sut dylwn i gyfeirnodu mathau penodol o adnoddau?

14.2 Llawysgrif unigol

Cyfeiriad yn y testun:
(Cyfenw'r awdur/teitl, blwyddyn)

Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:

- Awdur os ydy'n hysbys
- Blwyddyn (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y llawysgrif a'r dyddiad a'r mis os ydy'n hysbys (mewn italig)
- Enw'r casgliad
- Cyfeirnod
- Lleoliad y casgliad

Roedd pobl o bob cwr o'r wlad yn meddwl am heddwch ar yr adeg hon (Nesbit-Jones, 1812)

Nesbit-Jones, T. (1812) *Prayer for Peace*, 3 May. Nesbit-Jones Archive 156 C12/1, Cheshire Trust, Caer.

Rhestr Termau

Bydd rhestrau termau'n aml yn cael eu cynnwys ar ddechrau gweithiau estynedig megis traethodau hir, ar ôl y rhestr o ffigurau a thablau. Maent yn rhestr o allweddeiriau a diffiniadau yn nhrefn y wyddor i helpu'r darllenydd i ddeall termau cymhleth yn y papur. Dylai'r diffiniadau hyn gael eu llunio gan awdur y papur a byddent yn cael eu categorio'n wybodaeth gyffredinol; felly, nid oes angen eu cyfeirnodu. Os oes angen i chi gynnwys diffiniad o ffynhonnell, sicrhewch eich bod yn ei gynnwys yn eich rhestr gyfeiriadau / llyfryddiaeth.

Iaith

Fel arfer, dylid llunio cyfeiriadau yn eu hiaith wreiddiol, waeth pa iaith rydych chi'n ysgrifennu ynddi eich hun e.e.

Rappin, B., (2018). 'Une herméneutique du texte taylorien : Exception, coopération, amitié.' *Revue Française de Gestion*, 44(276), tt. 33-45

Fodd bynnag, os ydynt hefyd mewn sgript wahanol, dylent barhau yn eu hiaith wreiddiol ond cael eu darparu yn y sgript mae'ch gwaith eich hun yn ei defnyddio h.y. yn fwyaf tebygol, sgript Ladin oni bai eich bod yn ysgrifennu'ch aseiniad mewn sgript Tsieinaidd, Japaneaidd neu Islamaidd e.e.

鷲田清一. (2007) 京都の平熱 : 哲学者の都市案内. 東京: 講談社.

Dylid ei newid i:

Washida, K. (2007) *Kyōto no heinetsu: tetsugakusha no toshi annai*. Tōkyō: Kōdansha.

Meddalwedd Gyfeirnod

Pan fyddwch wedi meistroli hanfodion cyfeirnod gan ddefnyddio'r llawlyfr hwn a'r adnoddau ategol a argymhellir, gallwch ystyried symud ymlaen at feddalwedd ar-lein. Mae'r Llyfrgell yn rhoi mynediad i **RefWorks**, rhaglen ar-lein sy'n eich helpu i gofnodi'ch ffynonellau mewn un lle ac yn rhoi cymorth i chi eu cyfeirnod. Cewch fynediad ati ar wefan y llyfrgell, gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi yn y Drindod Dewi Sant: <https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/defnyddio-ein-llyfrgelloedd/llyfrgell-ar-lein/refworks/>

Hefyd mae amrywiaeth o ddewisiadau cod agored eraill megis Zotero a Mendeley ar gael sy'n gallu darparu gweithrediadau tebyg, fodd bynnag sylwer nad yw'r Drindod Dewi Sant yn rhoi cymorth ar gyfer defnyddio'r platfformau hyn nac yn darparu unrhyw feddalwedd gysylltiedig ar offer TG y Brifysgol.

Er gall meddalwedd gyfeirnod fod yn offeryn defnyddiol dros ben ar gyfer trefnu'ch ymchwil, nid yw bob amser yn gywir 100% ac ni ddylai gymryd lle datblygu'r sgiliau hyn eich hun. Byddai'n ddoeth cael dealltwriaeth o gyfeirnod cyn i chi symud at ddefnyddio un o'r platfformau hyn; mae'n hanfodol gwirio'ch cyfeiriadau am gywirdeb, yn enwedig yr atalnodi, ffont italig, a phriflythrennau.

Fodd bynnag, os teimlwch eich bod yn barod i ddefnyddio meddalwedd gyfeirnod neu os hoffech wybod rhagor amdani, defnyddiwch y tiwtorialau ar-lein sydd ar gael drwy [adran gyfeirnod](#) Sgiliau Gwybodaeth ar wefan y llyfrgell neu drwy ein tudalen RefWorks. I gael cymorth pellach, cysylltwch â'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a fydd yn hapus i'ch cefnogi.